Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ellen ap Gwynn
ERW
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

28 Mehefin 2019

Annwyl Ellen

Diolch eto am eich diweddariadau diweddar am ddatblygiadau yn ERW. Fel y gwyddoch, ymwelodd Jassa Scott, Clive Phillips a Mark Campion â'ch swyddfeydd yng Nghaerfyrddin ar 24 a 25 Mehefin 2019 i drafod cynnydd ERW yn unol â'i gynlluniau diweddaraf. Ysgrifennaf atoch i roi ychydig o adborth i chi o'u hymweliad byr.

Rhoddodd yr ymweliad rywfaint o sicrwydd i ni fod strwythur staffio newydd a chynllun busnes ERW yn cyd-fynd â gwaith y rhanbarth yn unol â dyheadau Ein Cenhadaeth Genedlaethol. Mae'n dda fod pob un o'r partneriaid wedi cytuno ar y cynlluniau hyn i'ch galluogi i recriwtio tîm canolog parhaol. Rydym yn ymwybodol nad ydych wedi llwyddo i benodi ar gyfer yr holl rolau eto, gan gynnwys sawl rôl uwch arweinyddiaeth, a bod risg o hyd na fydd gan ERW efallai y cyflenwad llawn o staff canolog i gyflwyno'r cynllun busnes yn yr hydref. Rydych chi'n gwbl ymwybodol o'r her hon a phwysigrwydd allweddol sefydlu tîm canolog cryf i gefnogi ysgolion ar draws y rhanbarth. Rydych chi hefyd yn ymwybodol o'r angen am gydlyniad rhwng gwaith staff canolog ERW ac ymgynghorwyr her a gyflogir yn lleol o ran cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion.

Yn ystod yr ymweliad, fe wnaethoch gydnabod yr angen am drefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad gwell ar bob lefel, yn ogystal â'r angen i sicrhau llinellau atebolrwydd clir a thryloywder wrth wneud penderfyniadau. Bydd hyn yn hanfodol wrth i chi barhau i feithrin ymddiriedaeth a chydweithrediad o'r newydd gyda'r holl bartneriaid. Mae'n galonogol eich bod yn cymryd camau cynnar i bennu'r model ariannol ar gyfer 2020-2021, ond mae hefyd yn hanfodol fod y broses yn cael ei chwblhau mewn da bryd.

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Amlygodd yr ymweliad gyfraniad y rheolwr gyfarwyddwr dros dro mewn hyrwyddo gweledigaeth gref ar gyfer gwaith ERW a chyfleu'r weledigaeth honno yn dda i randdeiliaid allweddol yn y rhanbarth. Bu ganddo rôl bwysig hefyd o ran gwella perthnasoedd gwaith gydag awdurdodau lleol ac ysgolion ar draws rhanbarth ERW. Rydych yn cydnabod bod angen cynnal yr ymgysylltiad a'r momentwm hwn ar ôl i'r rheolwr gyfarwyddwr dros dro adael fis nesaf.

Hoffwn ddiolch i chi a'ch staff am gyfarfod â'r tîm ar fyr rybudd, ac am roi o'ch amser i drafod y materion pwysig hyn.

Yn gywir

Meilyr Rowlands
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ellen ap Gwynn
ERW
Y Llwyfan
College Road
Carmarthen
SA31 3EQ

28 June 2019

Dear Ellen

Thank you again for your recent updates about developments in ERW. As you are aware, Jassa Scott, Clive Phillips and Mark Campion visited your Carmarthen offices on 24 and 25 June 2019 to discuss ERW's progress against its most recent plans. I am writing to provide you with some feedback from their brief visit.

The visit provided us with some assurance that ERW's new staffing structure and business plan aligns the region's work to the aspirations of Our National Mission. It is good that all partners have agreed these plans to enable you to recruit a permanent central team. We are aware that you have not managed to appoint to all the roles yet, including several senior leadership roles, and that there remains a risk that ERW may not have the full complement of central staff to deliver the business plan in the autumn. You are fully aware of this challenge and the critical importance of establishing a strong central team to support schools across the region. You are also aware of the need for coherence between the work of ERW's central staff and locally employed challenge advisers in the delivery of school improvement services.

During the visit, you acknowledged the need for improved governance and performance management arrangements at all levels as well as the need to ensure clear lines of accountability and transparency in decision-making. This will be essential as you continue to re-build trust and cooperation with all partners. It is encouraging that you are taking early steps to determine the financial model for 2020-2021, but it is also essential that this process is concluded in good time.

The visit highlighted the contribution of the acting managing director in promoting a strong vision for the work of ERW and communicating that vision well to key stakeholders in the region. He has also played an important role in improving

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

working relationships with local authorities and schools across the ERW region. You recognise the need to maintain this engagement and momentum after the acting managing director leaves next month.

May I thank you and your staff for accommodating the team at short notice and for giving of your time to discuss these important issues.

Yours sincerely

Meilyr Rowlands
Her Majesty's Chief Inspector of
Education and Training in Wales

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.